# PWYLLGOR ARDAL DWYFOR, 26-03-12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Robert J.Wright (Cadeirydd);
Y Cynghorydd E. Selwyn Griffiths, (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr**: Stephen Churchman, Anwen Davies, Margaret Griffith, Alwyn Gruffydd, John Gwilym Jones, Liz Saville Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, Sion Selwyn Roberts, Owain Williams ac R.H. Wyn Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Manon Ellis Williams, Prif Swyddog Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr a Chadeirydd Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd

**Swyddogion:** Dilwyn Williams, (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans, (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Aled Davies, (Pennaeth Adran Rheoleiddio), Dafydd Williams, (Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd), Amlyn ab Iorwerth, (Rheolwr Trwyddedu), Gareth Roberts, (Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu Trafnidiaeth), Meilir Hughes, (Rheolwr Stadau), Morwena Edwards, (Pennaeth Darparu a Hamdden), Gwen Carrington, (Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr: Llinos Merks, Peter Read a W. Gareth Roberts.

**Diolch**

Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a nododd y gallasai hwn fod y cyfarfod olaf o Bwyllgor Ardal Dwyfor. Diolchodd i'r holl swyddogion am eu cyngor gydol y pedair blynedd ddiwethaf ac am waith Uwch Reolwr y Gwasanaeth Cynllunio gyda Phwyllgor Cynllunio Ardal Dwyfor cyn ffurfio'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer y Sir.

Ymhellach, cyfeiriodd at waith yr holl aelodau gan ddiolch iddynt am eu cyfraniad i'w cymunedau.

**Cydymdeimlad**

Cyfeiriwyd at farwolaeth tad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol, Mrs Dilys Phillips, a chydymdeimlwyd â'r teulu yn eu profedigaeth.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr, 2011, fel rhai cywir.

## 3. 'GOFALU AM OFALWYR'

a) Croesawyd Manon Ellis Williams, Prif Swyddog Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr a Chadeirydd Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd, a chafwyd cyflwyniad ganddi yn ymdrin â 'Gofalu am Ofalwyr'.

b) Eglurodd mai bwriad y cyflwyniad oedd codi ymwybyddiaeth a thynnu sylw'r aelodau at faterion sydd o bwys i'r gofalwyr di-dâl.

c) Nododd mai rôl Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd yw hybu cydweithio fel y gellir lleihau dyblygu a gwneud y gorau o'r adnoddau prin sydd ar gael. Eisoes sefydlwyd cynllun busnes ac eglurodd fod hwn yn anelu at sicrhau fod gofynion gofalwyr y Sir yn cael sylw teilwng.

Yn ogystal, mae sicrhau chwarae teg i ofalwyr wrth gael mynediad at wasanaethau yn darged pendant, ac eglurwyd bod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu cynlluniau newydd, megis cynllun 'Homeshare' a sefydlwyd yn ardal Nefyn sy'n cynorthwyo pobl sy'n dioddef o ddementia.

Ychwanegodd bod cynlluniau ar gyfer cynorthwyo oedolion ifanc sy'n gofalu fel nad ydynt yn colli cyfleoedd.

d) Ymhelaethodd ar y materion canlynol:

- Pwy sy'n gofalu?
- Pam fod gofalwyr yn bwysig?
- Gofalwyr Cudd;

Mewn perthynas â'r prif bwyntiau yma, nodwyd bod y gofalwyr di-dâl yn darparu 96% o'r oriau gofal yng Nghymru a bod gwerth y gofal hwn yn £7.7 biliwn. Yng Ngwynedd mae yna 14,000 o ofalwyr gyda llawer heb sylweddoli eu bod yn ofalwyr neu'n amharod i ofyn am help.

Pwysleisiwyd nad yw'n bosib i rai sy'n sâl, yn anabl neu'n oedrannus fyw'n annibynnol heb ofalwyr  a bod hyn yn tanlinellu pwysigrwydd gofalwyr di-dâl o fewn cymunedau.

dd) O safbwynt y prif negeseuon a geir yn gyson nodwyd bod gofalwyr yn gofyn am gael :

- Dewis;
- Rheolaeth;
- Gwybodaeth gywir;
- Cefnogaeth;
- Cydnabyddiaeth mewn amrywiol ffyrdd gan nodi nad yw hyn yn golygu cydnabyddiaeth o ran tâl na chyhoeddusrwydd;
- Cyfathrebu ac ymgysylltu fel bod y gofalwyr yn cael cyfle i leisio barn a chyflwyno syniadau.

e) Mewn ymateb diolchodd aelodau am y cyflwyniad a chyfeiriwyd at werth anhygoel y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y gofalwyr.

f) Cyfeiriwyd at yr angen i roi gwybod i bawb am y gwasanaeth sydd ar gael a nodwyd bod Partneriaeth Gofalwyr Gwynedd yn ymdrechu i wneud hyn gyda chyllideb hynod fach. Nodwyd bod gan yr aelodau rôl arbennig a bod modd iddynt gyflwyno gwybodaeth i drigolion yn eu cymunedau ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael.

g) Diolchwyd i Manon Ellis Williams am y cyflwyniad a nododd y Cadeirydd fod y gwaith a wneir gan y gofalwyr i'w edmygu.

**4. IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU ARDAL DWYFOR**

4a) Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o Is-bwyllgor Trwyddedu, Ardal Dwyfor, a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd, 2011.

4b) Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o is-bwyllgor Trwyddedu, Ardal Dwyfor, a gynhaliwyd ar 27 Ionawr.

**5. IS-BWYLLGOR YMGYNGHOROL MARCHNADOEDD A FFEIRIAU DWYFOR.**

a) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod o Is-bwyllgor Ymgynghorol Marchnadoedd a Ffeiriau Dwyfor, a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2012, gan y Rheolwr Trwyddedu.

b) Mynegwyd pryder gan aelod ynglŷn â'r gostyngiad yn nifer y stondinau yn Ffair Cricieth. Tynnodd sylw at y ffaith fod yn agos i 150 o stondinau yn y ffair ychydig flynyddoedd yn ôl ond bod y nifer wedi gostwng i 50 yn 2011. Gofynnodd yr aelod a oedd rheswm penodol am y gostyngiad ac a oedd ymholiadau wedi eu gwneud ynglŷn â hyn.

c) Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr fod y gostyngiad yn adlewyrchu'r sefyllfa economaidd a bod pethau, megis cost tanwydd, yn cael effaith ar y sefyllfa. Ychwanegodd fod y gostyngiad yn dilyn patrwm cenedlaethol ond bod camau'n cael eu cymryd i hysbysebu Ffair Cricieth yn well yn y dyfodol.

Awgrymodd yr aelod y gellid sefydlu partneriaeth gyda Chyngor Tref Criccieth mewn ymdrech i hybu'r ffair.

ch) Dywedodd aelod arall bod gwerth neilltuol ym marchnad wythnosol Pwllheli oherwydd ei bod yn denu pobl i'r dref ac felly o fudd i'r siopau lleol.

Cadarnhaodd y Rheolwr fod marchnadoedd Pwllheli a'r Wyddgrug yn cael eu hystyried fel y rhai gorau yng ngogledd Cymru. Credai'r aelod y dylid tanlinellu hyn wrth hysbysebu marchnad Pwllheli.

d) Eglurodd y Rheolwr nad oedd Adran Briffyrdd y Cyngor yn gefnogol i'r syniad o gynnal Marchnad Sul Pwllheli ar ddyddiau gŵyl banc ychwanegol. Fodd bynnag, 'roeddynt yn barod i ystyried y posibilrwydd o ymestyn y tymor.

**PENDERFYNWYD:**
**i) Cymeradwyo cofnodion cyfarfod o Is-bwyllgor Ymgynghorol Marchnadoedd a Ffeiriau Dwyfor, a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2012 fel bod :**

- **ffioedd presennol ar gyfer stondinau marchnadoedd, (sef £1:00 y droedfedd blaen ar gyfer pob stondin rhwng Mehefin ac Awst a 50c y droedfedd blaen ar bob achlysur arall, gyda masnachwyr achlysurol yn talu tair gwaith y ffioedd yma) yn aros heb unrhyw newid ar gyfer 2012;**
- **y ffioedd ar gyfer stondinau yn Ffair Cricieth, sef £5 am y tair medr blaen cyntaf, a £5 am bob medr ychwanegol, yn aros heb unrhyw newid ar gyfer 2012;**
- **y drefn bresennol ym Marchnad Porthmadog lle mae angen i fasnachwyr arwyddo a thalu am y tymor yn ei gyfanrwydd, yn cael ei dileu;**
- **trefn newydd yn cael ei chyflwyno ym Mhorthmadog fel bod masnachwyr yn arwyddo am y tymor cyfan er mwyn gwarchod eu llecyn, ond ni fydd yn**

**ofynnol iddynt dalu pan nad ydynt yn bresennol yn ystod Ebrill, Tachwedd a Rhagfyr;**

- **amod sy'n gwahardd cael stondin i werthu diod poeth ym Marchnad Sul Pwllheli, yn parhau mewn grym;**
- **Ffair Pwllheli'n cael ei chynnal ar ran gefn maes parcio Ffordd Caerdydd yn 2012.**

**Ymhellach i gofnodion yr Is-bwyllgor, penderfynwyd:**
**i) Bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Chyngor Tref Cricieth ynglŷn â'r posibilrwydd o gydweithio er mwyn hybu'r ffair leol.**
**ii) Bod trafodaethau'n cael eu cynnal gydag Adran Drafnidiaeth y Cyngor ynglŷn â'r posibilrwydd o ymestyn tymor Marchnad y Sul ym Mhwllheli.**

*Ar derfyn y drafodaeth cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad y Rheolwr Trwyddedu, Amlyn ab Iorwerth.
Diolchodd iddo am ei wasanaeth a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

**6. GORCHYMYN CAU FFORDD, (Rhan o ffordd ddi-ddosbarth o fewn 'Stad Ddiwydiannol Porthmadog)**

a) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Adran Rheoleiddio gan yr Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu Trafnidiaeth yn amlinellu'r bwriad i wneud cais trwy'r Llys Ynadon i gau'r rhan benodol o'r ffordd ddi-ddosbarth gan nad oes ei hangen fel priffordd gyhoeddus bellach.

b) Amlinellwyd cefndir y cais a nodwyd nad oedd gwrthwynebiad gan y Cyngor Tref na'r aelod lleol i'r bwriad. Cadarnhawyd hefyd nad oded gwrthwynebiad gan Dŵr Cymru na Wales & West Utilities.

c) Cadarnhaodd yr aelod lleol bod y Cyngor Tref wedi rhoi ystyriaeth i'r mater a bod y bwriad yn gwbl dderbyniol.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r bwriad i wneud cais i'r Llys Ynadon i gau rhan o'r ffordd ddi-ddosbarth ar safle Warws Gelert ar y sail nad oes ei hangen fel priffordd gyhoeddus bellach.**

**7. TIR AR BARC BUSNES NEFYN**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Eiddo Corfforaethol gan y Rheolwr Stadau yn ceisio awdurdod i werthu tir ym Mharc Busnes, Nefyn.

b) Atgoffwyd aelodau fod y Pwyllgor Ardal wedi penderfynu, ar 21 Rhagfyr, 2009, fod y Cyngor yn gwerthu rhan o'r llain dan sylw. Fodd bynnag nid aeth y darpar brynwr ymlaen gyda'r pryniant, a chafwyd cadarnhad nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn prynu'r safle bellach.

c) Nodwyd bod cais i brynu'r safle wedi ei dderbyn oddi wrth gwmni lleol ac mai'r tir dan sylw oedd y safle olaf ym mherchnogaeth y Cyngor ar y 'stad. Esboniwyd bod y cyfanswm maint y safle yn 8,800 medr sgwâr.

ch) Nodwyd y byddai bwriad yr ymgeisydd yn sicrhau cyflogaeth ac yn creu cyfle i gwmni lleol ymestyn.

d) Cadarnhawyd nad oedd bwriad i werthu am lai na phris y farchnad.

dd) Cadarnhawyd cefnogaeth yr aelod lleol i'r cais, a nododd aelodau eraill eu bod yn croesawu'r datblygiad.

**PENDERFYNWYD bod tir ar barc Busnes Nefyn, sy'n mesur oddeutu 8,800 medr sgwâr yn cael ei werthu ar delerau i'w pennu gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth datblygu Economi a Chymuned.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL DARPARU A HAMDDEN

a) Cyflwynwyd adroddiad blynyddol Pennaeth Darparu a Hamdden a chyfeiriodd yn benodol at ystyriaethau strategol.

b) Eglurodd ei bod wedi rhoi ystyriaeth i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Adran a'i bod o'r farn bod modd gweithio'n fwy effeithiol drwy fod yn gwbl glir parthed yr hyn mae'r Adran yn ceisio ei gyflawni.

Oherwydd hyn, credir y dylid canolbwyntio ar wneud y pethau iawn yn ogystal â gwneud pethau'n iawn a gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu. Tynnodd sylw'n benodol at yr agenda iechyd ataliol a chyfeiriodd at y gwaith a wnaed ar gyfer cyflwyno strwythur rheolaethol mwy addas o fewn yr Adran fel y gellir gwneud gwell defnydd o adnoddau, sicrhau arbedion yn ogystal ag hyrwyddo bywyd iach i drigolion Gwynedd.

c) Ychwanegodd fod tuedd wedi bod i roi ymateb sirol i faterion yn hytrach na gweithio yn ôl gofynion ardaloedd. Gyda hyn mewn golwg, penodwyd Rheolwyr Ardal, a nodwyd mai Olwen Ellis Jones fydd yn gyfrifol am Ardal Dwyfor. Byddai'r rheolwr yma'n gyfrifol am faterion gweithredol holl wasanaethau'r Adran.

ch) Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan aelodau nodwyd:

- Bod gwaith staff o Gartref Tan y Marian, Pwllheli yng Nghartref Pant yr Eithin, Harlech, fydd yn cau ar 31 Mawrth, yn rhan o'r cynllun ymgartrefu, ac mai'r unig gost ychwanegol fydd costau teithio;
- Bydd gwybodaeth yn cael ei roi i aelodau ynglŷn â'r strwythur wedi i'r holl benodiadau gael eu gwneud;
- Mai'r bwriad yw symleiddio strwythurau rheoli fel bod rheolwyr rheng flaen yn gweithredu'n effeithiol a'u bod yn gwneud penderfyniadau yn hytrach na dirprwyo pethau i fyny'r strwythur;
- Bydd cyfundrefn effeithiol mewn lle o ran materion datblygol fel y gellir trafod anghenion lleol a darparu gwasanaeth yn ôl y galw.

d) Diolchodd aelodau am y gwaith llwyddiannus a wnaed parthed sefyllfa ariannol y ffreutur yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog. Nodwyd bod colledion a wnaed yno wedi troi yn elw bellach a bod hyn yn cael ei werthfawrogi.

dd) Cyfeiriodd aelod yn benodol at ddatblygu Siarter Fwyd i Wynedd a'r modd y cyfeirir at hyn fel rhan o'r gwaith i hyrwyddo bwyd ffres lleol. Mewn ymateb gofynnodd sut y gellid cysoni hyn gydag adroddiadau diweddar ynglŷn â cyflenwi bara ar gyfer ysgolion a chartrefi preswyl yng Ngwynedd.

e) Mewn ymateb, nododd y Pennaeth fod tendr bwyd yn para am dair blynedd a bod modd ei ymestyn oddeutu blwyddyn os oedd hynny yn addas. Daeth y tendr bwyd i ben yn ddiweddar a dilynwyd y drefn o Caffael o dan reolau Ewrop.

Er na fu'r tendr yn llwyddiant i un fecws leol, nodwyd bod y cytundeb yn ei chyfanrwydd yn dangos bod gwasanaeth nifer o gyflenwyr lleol, sy'n gallu darparu bwyd ffres, wedi ei sicrhau a gwelwyd cynnydd yn nifer y cyflenwyr bwyd sy'n dod o Wynedd.

Esboniwyd ymhellach bod rhaid dilyn rheolau Caffael. Fel rhan o'r broses, 'roedd ystyriaeth yn cael ei roi i ansawdd a phris.

f) Yn sgil hyn, mynegwyd pryder gan aelod arall y gallasai cwmnïau bychain lleol ddioddef ac y gallasai effaith y cwmnïau mawrion fod yn andwyol yn yr hir dymor.

g) Awgrymwyd y gellid darparu adroddiad ynglŷn â'r polisi perthnasol er mwyn sicrhau na fydd cwmnïau lleol yn dioddef a bod y term 'lleol' yn cael ei ddiffinio'n llawn.

**PENDERFYNWYD:**
**a) Derbyn yr adroddiad;**
**b) Bod adroddiad ynglŷn â'r polisïau sy'n gysylltiedig â'r weledigaeth o hyrwyddo bwyd ffres lleol a'r diffiniad ffurfiol o'r term 'lleol' yn cael chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu priodol.**

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

a) Cyflwynwyd adroddiad blynyddol Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol gan nodi ei bod am roi'r sylw pennaf i faterion tai a pherfformiad.

b) Cyfeiriodd at y cynnydd sylweddol a chyson yng ngwaith yr Adran, a bod y gwaith o gyflwyno cynlluniau arbedion wedi bod yn llwyddiannus. Nodwyd y bydd rhaid wynebu disgwyliadau a sawl her newydd a bod adegau pryd mae maint Gwynedd a thrwch poblogaeth y Sir yn ei gwneud yn anodd cael parhad gwasanaeth. Yn ogystal, nodwyd bod angen parhau i fuddsoddi er mwyn cael dilyniant a gweithlu addas.

c) Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau a chwestiynau a ofynnwyd, nodwyd:

- Bod angen buddsoddiad i wella darpariaeth breswyl ar safle Tan y Marian, Pwllheli a Bron Deg, Caernarfon;
- Bod angen gwella safon adeiladau cartrefi er mwyn rhesymoli costau refeniw gan fod cysylltiad rhwng addasrwydd llety a chost pecynau cefnogol;
- Bod adnabod llety addas ar gyfer pobl hŷn a phobl gydag anghenion yn cael ei ystyried fel un o flaenoriaethau'r Adran;
- Bod gwaith cyson yn cael ei wneud parthed Menter Cartrefi Gwag ac mai un o'r targedau yw cael eiddo yn ôl i ddefnydd yn ôl yr angen;
- Bod amrywiol faterion, megis prinder stoc, gwaith Cartrefi Cymunedau Gwynedd i uwchraddio tai ar math o ddigartrefedd, yn cyfrannu at y cynnydd yn nifer y ceisiadau digartrefedd, o 95 i 105 yn Ardal Dwyfor;
- Bod angen rhoi ystyriaeth i'r math o lety sydd ei angen ac ymhle mae galw amdano er mwyn ymateb i faterion digartrefedd;
- Bod gostyngiad o £1.3 miliwn yn g nghyllid Cefnogi Pobl o hyn hyd at 2017 a bydd effaith hyn ym maes anabledd dysgu yn sicr o fod yn sylweddol;
- Bod datblygiadau ar safle Hafod y Gest, Porthmadog, yn unol â phenderfyniad y Cyngor, wedi eu gwrthod hyd nes bod adolygiad yn cael ei gwblhau fel y gellir trefnu darpariaeth addas ar gyfer gofynion a dyheadau'r gymuned;
- Bod trefniadau ar gyfer ymdrin â'r adolygiad yn cael eu hystyried ond bod disgwyl i gysylltiad gael ei wneud gyda'r aelodau lleol cyn edrych ar benderfyniadau ynglŷn â Hafod y Gest;

- Bod gwaith sy'n gysylltiedig â datblygiadau cymunedol, megis, teleofal, galluogi, adolygiad gyda gofal dydd a gwaith gyda'r trydydd sector mewn perthynas â gofalwyr, yn parhau ar draws y Sir;

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**10. FFORYMAU ARDAL**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Dilwyn Williams.

b) Amlinellodd y gwaith a wnaed hyd yma mewn perthynas â'r syniad o greu fforymau ardal fel rhan o'r bwriad i sicrhau fod yna gyfundrefn strwythuredig yn bodoli fel y gall ddinasyddion leisio barn ar gyfer datrys problemau yn eu hardal.

c) Cyfeiriodd yn benodol at sylwadau a wnaed gan drigolion Gwynedd yn yr adolygiad MORI, sef bod 29% yn dymuno cael mwy o lais yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol a 59% pellach yn dymuno hynny, yn dibynnu ar y mater dan sylw.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod y syniad wedi datblygu yn Lloegr lle mae'r fforymau bellach yn derbyn cyllid, a nododd mai dyma fyddai'r bwriad yng Ngwynedd maes o law.

ch) Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y materion canlynol:
- Yr egwyddor o sefydlu fforymau ardal;
- Sut fyddai'r fforymau'n gweithio;
- A ddylai'r fforymau gymryd lle'r Pwyllgorau Ardal.

d) O safbwynt cyflwyno'r fforymau ardal i gymryd lle pwyllgorau ardal, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bydd peth o waith pwyllgorau ardal yn trosglwyddo i'r Cabinet neu'r arweinyddion portffolio fel rhan o'r gyfundrefn reolaethol newydd fydd yn dod i rym yn y Cyngor newydd. Yn ogystal, bydd disgwyl i'r arweinyddion portffolio gynnal cymorthfeydd fel y gall aelodau herio'r hyn sy'n digwydd o fewn eu gwasanaeth.

Yn sgil hyn, bydd angen ystyried cyfrifoldebau pwyllgorau ardal. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai cynrychioli ardal fyddai'r cyfrifoldeb pennaf ac y gellid ystyried fforymau ardal fel ffordd effeithiol o wneud hyn.

dd) Nododd mai'r bwriad ar hyn o bryd, yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn, oedd ceisio barn pwyllgorau ardal.

e) Ystyriwyd y posibiliadau gan aelodau a nodwyd y prif bwyntiau canlynol gydag amrywiaeth barn yn amlwg :
- Byddai cyflwyno fforymau ardal yn tanseilio rôl aelodau lleol;
- Bod amheuaeth ynglŷn â grym y fforymau;
- Bod y drefn bresennol yn rhoi cyfle i unigolion droi at eu cynghorwyr lleol fel bo'r angen ac nad oedd an gen newid;
- Nad oedd gwybodaeth ynglŷn â'r modd o roi cyllid i'r fforymau;
- Dylid cyfyngu aelodaeth fforwm ardal i aelodau lleol;
- Bod Cynghorau Cymuned eisoes yn gweithio fel fforymau lleol;
- Byddai unigolion yn ymuno â fforymau yn ôl eu dymuniad ac nad oedd sicrwydd o arweiniad pendant;
- Bod sawl her yn bodoli ac y gallai'r fforymau fod yn fanteisiol oherwydd byddai mwy yn gallu lleisio barn;

- Bod angen ystyried maint y fforymau ac y gallasai dalgylchoedd ysgolion uwchradd fod yn syniad i'w ystyried;
- Byddai'r fforymau'n creu ffordd o gydweithio a lleisio barn leol gyda chynghorwyr lleol yn arwain gweithgareddau;
- Bod yr egwyddor o sefydlu fforymau ardal yn dderbyniol ac y gellid eu treialu mewn rhai mannau.

f) Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod rhaid bod yn effeithlon ac y gallasai cael cymorthfeydd arweinyddion portffolio yn ogystal â phwyllgorau ardal olygu fod gwaith yn cael ei ddyblygu ac y byddai hyn yn gwbl aneffeithlon.

Ychwanegodd mai'r bwriad oedd cael uwch swyddogion i gynnig cymorth i aelodau er mwyn gallu dallt anghenion pobl leol a gallu lleisio'r farn drwy'r cyfundrefnau i mewn i'r Cyngor.

Nododd fod y drefn eisoes yn llwyddo yn Lloegr, ac awgrymodd y gellid treialu'r fforymau mewn rhai ardaloedd yng Ngwynedd.

g) Eglurodd bod swyddogion wedi ystyried maint fforymau ac nad oedd talgylchoedd ysgolion uwchradd yn cyd-fynd ag ardaloedd aelodau etholedig. Ychwanegodd bod ardaloedd adfywio yn gwneud hyn, ond y gallasai eu maint fod yn ormodol. Felly, pe byddai'r egwyddor o sefydlu fforymau ardal yn cael ei dderbyn, byddai maint yr ardaloedd yn un o'r materion fyddai'n hawlio sylw pellach.

ng) Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ymhellach y byddai'r fforymau'n cael eu cynnal yn gwbl anffurfiol, a nododd bod trefn o'r fath, mewn gweithgorau ac ati wedi bod yn effeithiol eisoes ac y byddai'n bosib i'r farn fyddai'n cael ei lleisio mewn fforymau gael effaith ar benderfyniadau'r Cabinet.

h) Er mwyn cyfleu barn Pwyllgor Ardal Dwyfor penderfynwyd, drwy bleidlais fwyafrifol:
i) cefnogi'r egwyddor o sefydlu fforymau ardal;
ii) pe byddent yn cael eu cyflwyno, y dylai'r fforymau gael eu rhedeg yn ogystal â'r pwyllgorau ardal;
iii) y dylid treialu'r fforymau ardal mewn rhannau o Wynedd.

## 11. CYFLEUSTERAU CAFFI PALMANT – SGWÂR Y FARCHNAD, PWLLHELI

a) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio.

b) Manylodd y Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd ar y gwaith a wnaed ers mis Medi 2011 pryd y penderfynodd y Pwyllgor hwn ohirio apêl ar ran Cuisine to Eat Bistro, 4, Sgwâr y Farchnad, Pwllheli, yn erbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod caniatâd am drwydded palmant ar gyfer gosod cyfleusterau caffi ar y briffordd gyhoeddus.

Yn unol â dymuniad y Pwyllgor ym Medi 2011, ceisiwyd dehongliad cyfreithiol pellach o'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol. Cafwyd barn gyfreithiol gan Gwnsler Arweiniol a nodwyd:
*'Bod pwerau i roi caniatâd am gyfleusterau caffi palmant mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd sy'n cynhyrchu incwm yn cael ei wahardd yn effeithiol gan y bod yn rhaid i berchnogion a meddianwyr eiddo cyfagos roi eu caniatâd'.*

'Roedd y cyfarwyddyd hwn yn unol â'r cyngor a ddarparwyd gan Adran Gyfreithiol y Cyngor.

c) Ymhellach nodwyd bod Cyngor Tref Pwllheli wedi cadarnhau eu gwrthwynebiad i'r cais, ac na fyddai caniatáu safle caffi arall, tu allan i 3 Sgwâr y Farchnad, yn ymarferol.

d) Mynegwyd anfodlonrwydd gan yr aelod lleol a dynnodd sylw at y ffaith nad oedd gwrthwynebiad gan berchnogion na'r sawl sy'n defnyddio eiddo rhif 3 Sgwâr y Farchnad. Fodd bynnag, eglurodd swyddogion y byddai'n rhaid cael caniatâd gan berchnogion pob eiddo yn ogystal â'r rhai sy'n eu defnyddio'n ddyddiol.

Gyda Chyngor Tref Pwllheli wedi cadarnhau eu gwrthwynebiad, 'roedd y sefyllfa'n golygu y byddai'r Cyngor yn gweithredu'n groes i Ddeddf Gwlad pe byddai'r cais yn cael ei ganiatáu. Ymhellach, nododd Rheolwr y Gwasanaeth Cyfreithiol y byddai'n rhaid iddo alw'r achos i mewn i'r Cyngor pe byddai'r Pwyllgor yn dewis caniatáu'r cais.

dd) Pwysleisiodd rhai aelodau y byddai cael y cyfleusterau caffi ar y safle o fudd i'r dref yn gyffredinol gan y byddai'n denu pobl i ardal y siopau. Yn ogystal, mynegwyd siom fod y Cyngor Tref yn gwrthwynebu'r bwriad ac awgrymwyd y gellid trafod ymhellach fel y gellid cyfaddawdu.

e) Eiliwyd cynnig i ohirio'r mater er mwyn cynnal trafodaethau pellach, ond disgynnodd y cynnig.

**PENDERFYNWYD gwrthod caniatâd ar gyfer gosod cyfleusterau caffi palmant yn gyfagos i 4 Sgwâr y Farchnad, Pwllheli, ac i'r apêl a wnaed ar ran Cuisine to Eat Bistro gael ei gwrthod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 5.15pm a daeth i ben am 8:00pm